Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe

# Profiadau Cleifion Mewnol
## Adroddiad Cryno Chwarterol

Hydref 2022



CYNGOR IECHYD CYMUNED
COMMUNITY HEALTH COUNCIL
BAE ABERTAWE | SWANSEA BAY

https://baeabertawecic.gig.cymru/

# Fformatau Hygyrch

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Gallwch lawrlwytho copi electronig oddi ar ein gwefan:

https://baeabertawecic.gig.cymru/

Neu gofynnwch am gopi trwy gysylltu â'n swyddfa. Gweler y manylion cysylltu ar dudalen 36.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Ynghylch CIC Bae Abertawe** | **4** |
| **Cefndir a Chyflwyniad** | **5** |
| **Yr hyn a wnaethom** | **5 – 6** |
| **Gan bwy yr ydym ni'n clywed** | **7 – 8** |
| **Yr hyn a glywsom**<br>**Arolwg Cleifion:**<br>• Canfyddiadau allweddol<br>**Ymweliadau â wardiau – adborth** | **9 – 30**<br>**12 – 21**<br>**12**<br>**22 – 30** |
| **Dysgu o'r hyn a glywsom** | **31** |
| **Ein hargymhellion** | **32** |
| **Beth nesaf?** | **35** |
| **Diolch** | **35** |
| **Adborth** | **35** |
| **Manylion cysylltu** | **36** |

# Ynghylch Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) Bae Abertawe

CIC Bae Abertawe yw corff gwarchod annibynnol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Rydym yn annog ac yn cynorthwyo pobl i leisio barn am y modd y mae gofal iechyd ar gyfer eu teuluoedd a'r cymunedau lleol yn cael ei lunio a'i ddarparu.

Mae CIC Bae Abertawe yn gweithio gyda'r GIG, cyrff arolygu, a chyrff rheoleiddio. Rydym yn gyswllt pwysig rhwng y rhai sy'n cynllunio a darparu gwasanaethau'r GIG, y rhai sy'n eu harolygu a'u rheoleiddio a'r rhai sy'n eu defnyddio.

Clywn gan y cyhoedd mewn sawl ffordd. Cyn y pandemig coronafeirws, roeddem yn ymweld â gwasanaethau'r GIG yn rheolaidd i glywed gan gleifion tra'r oeddent yn derbyn gofal a thriniaeth. Roeddem yn siarad gyda'u teuluoedd a'u gofalwyr hefyd. Roeddem hefyd yn clywed gan bobl mewn digwyddiadau cymunedol lleol a thrwy siarad gyda chynrychiolwyr a grwpiau cymunedol.

Fe wnaethom addasu ein ffyrdd o glywed gan bobl, gan ddefnyddio arolygon ar-lein, y cyfryngau cymdeithasol a defnyddio apiau fideogynadledda fel Zoom, Teams a Skype. Fe wnaeth yr apiau hyn ei gwneud yn bosibl inni fod yn bresennol mewn digwyddiadau ymgysylltu rhithwir hefyd.

Rydym yn parhau i glywed gan bobl drwy ymholiadau a'n gwasanaeth eiriolaeth cwynion. Mae CIC Bae Abertawe yn cynrychioli llais y "claf a'r cyhoedd" yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

# Cefndir a Chyflwyniad

Fe wnaethom barhau i gasglu adborth gan bobl am eu harosiadau diweddar mewn ysbyty yn ardal Bae Abertawe.

Ymddengys bod profiad pobl yn gyffredinol wedi gwella o adroddiadau diweddar, fodd bynnag, roedd cyfran sylweddol o'r adborth yn cyfeirio at un Ward yn Ysbyty Singleton – Ward 2.

Roedd themâu'r adborth yn gyffredinol yn gydnaws â'n hadroddiadau chwarterol ar gyfer 2021/2022.[1]

# Yr hyn a wnaethom

Fe wnaethom barhau gyda'n harolwg cleifion mewnol, gan ofyn barn pobl am arhosiad presennol neu ddiweddar, mewn ysbyty o fewn ardal Bae Abertawe. Roedd ein harolwg yn edrych ar brofiadau pobl a oedd wedi aros o leiaf un noson yn yr ysbyty fel claf mewnol, yn ymdrin â chwe maes o brofiadau cleifion mewnol: derbyn i'r ward; staff y ward; gofal a thriniaeth; cyfleusterau'r ward; amseroedd bwyta; a phrofiadau cleifion mewnol pan roedd mesurau Covid ar waith yn yr ysbytai. Byddai'r cwestiynau hyn yn ein helpu i ddeall mwy am ansawdd profiad claf mewnol a'r hyn y gellid bod angen gwella arno.

Ym mis Hydref 2022, ailgydiodd CIC BA ar ymweliadau ag ysbytai. Siaradodd staff ac aelodau'r CIC yn uniongyrchol â chleifion ar 2 ward:

[1] Mae adroddiadau blaenorol ar gael ar ein gwefan, https://baeabertawecic.gig.cymru/ neu ar gais

- Ward D, ysbyty Castell-nedd Port Talbot
- Ward 2, Ysbyty Singleton

Cafwyd adborth ar ffurf trafodaeth agored (yn hytrach na chwblhau arolwg), a gellir gweld manylion hyn ar dudalen 23.

<u>Arolwg Cleifion</u>

Roeddem yn rhannu ein harolwg ar-lein yn rheolaidd ar ein llwyfannau ar y cyfryngau cymdeithasol, yn cynnwys Instagram, Twitter a Facebook, gydag amrywiol randdeiliaid a grwpiau lleol, yn cynnwys:

- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe)
- Cydlynwyr Ardaloedd Lleol
- Amrywiol grwpiau cymunedol lleol, yn cynnwys grwpiau cefnogaeth Covid-19
- Grwpiau nas clywir yn aml
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Parhaodd yr adroddiadau chwarterol ar gleifion mewnol i gael eu rhannu ar draws amrywiol fforymau fel Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd – sy’n cynnwys amrywiol gynrychiolwyr cymunedol – Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd, a’r Fforwm Mynediad a Chynaliadwyedd.

Mae adborth yn parhau i’n cyrraedd drwy ein gwasanaeth ymholiadau ac eiriolaeth cwynion, drwy rwydweithiau cymunedol lleol, cynrychiolwyr a grwpiau cymunedol, a monitro gweithgareddau’r bwrdd iechyd, yn cynnwys adborth a chwynion.

Mae’r adroddiad hwn yn trafod y cyfnod rhwng Gorffennaf 2022 – Hydref 2022

# Gan bwy yr ydym ni'n clywed?

Mae'r blychau porffor isod ac ar dudalen 8 yn rhoi cipolwg ar y bobl a rannodd eu barn a'u profiadau gyda ni drwy ein harolwg lleol.[2]

Gallwch gael gwybod yn ein Cynllun Cydraddoldeb beth rydym yn ei wneud i glywed gan wahanol grwpiau o bobl er mwyn inni allu cynrychioli amrywiaeth y cymunedau a wasanaethwn yn well. Gallwch ddod o hyd i'n Cynllun Cydraddoldeb ar ein gwefan:

https://swanseabaychc.nhs.wales/about-us/our-governance/governance-documents/equality-plan-2021-2022-pdf/



Rhannodd pawb eu barn a'u profiadau yn Saesneg, er bod ein harolwg hefyd ar gael yn Gymraeg ac ar ffurf Hawdd ei Ddarllen.

O blith y rhai a atebodd ein cwestiynau 'monitro cydraddoldeb' yn yr arolwg:

Disgrifiodd 82% eu hunain fel benywaidd, 12% yn wrywaidd, un fel anneuaidd

Dywedodd oddeutu 94% mai eu grŵp ethnig yw Gwyn (Cymreig, Saesnig, Albanaidd, Gogledd Iwerddon, Prydeinig)

2. Ni chafwyd gwybodaeth cydraddoldeb gan gleifion a oedd yn rhoi adborth yn ystod ymweliadau â wardiau.

Dywedodd 35% wrthym mai Cristnogion ydynt, a dywedodd 35% arall nad oes ganddynt grefydd. Dewisodd 24% “crefydd arall”.

Categorïau grŵp oedran:

Roedd 59% yn 45 – 60 mlwydd oed

Roedd 24% yn 60 – 75 mlwydd oed


Roedd 12% yn 26 – 44 mlwydd oed

Roedd 6% yn 18 mlwydd oed ac iau

Roedd oddeutu 88% yn arddel hunaniaeth heterorywiol, ac un person yn nodi “hoyw/lesbiaidd” ac un arall fel “deurywiol”

Dywedodd llawer wrthym fod ganddynt gyflwr hirdymor, fel:


- Cyflwr corfforol – 59%
- Cyflwr iechyd meddwl – 29%
- Salwch hirdymor – 35%
- Byddar neu nam difrifol ar y clyw – 6%
- Anabledd dysgu – 6%




# Yr hyn a glywsom

Rhannodd cyfanswm o 29 o bobl eu profiadau.

Rhannodd 17 o bobl eu profiadau gyda ni drwy'r arolwg cleifion mewnol: rhoddodd 10 o bobl adborth am arhosiad ar ward yn Ysbyty Singleton, gyda 5 yn rhoi adborth am ward yn Ysbyty Treforys. Dywedodd 1 person wrthym am arhosiad yn Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, ac ni nododd un person arall ym mha ysbyty y buont yn aros.




Rhannodd 12 o bobl eu profiadau cleifion mewnol gyda staff ac aelodau yn ystod ymweliadau ward y CIC. **Gellir dod o hyd i'r adborth a gafwyd drwy'r ymweliadau â wardiau ar dudalen 23.**





Mae'r siartiau bar ar dudalennau 11 ac 12 yn dangos y wardiau a roddodd y cleifion adborth yn eu cylch drwy ein harolwg. Ni wnaeth un person ddweud wrthym beth oedd enw'r ysbyty na'r ward y buont yn aros ynddi.

Gwahoddir y Bwrdd Iechyd i ofyn am fanylion pellach am y wardiau y mae sylwadau'n cyfeirio atynt yn ein hadroddiad, er efallai bod rhywfaint o adborth eisoes wedi'i rannu â'r Bwrdd Iechyd pan fo pryderon wedi'u codi gan y CIC.

Derbyniwyd nifer sylweddol o sylwadau ynghylch Ward 2, y ward llawfeddygol yn Ysbyty Singleton.






# Canfyddiadau Allweddol – Arolwg Cleifion Mewnol

Dywedodd 16 o bobl wrthym am arhosiad diweddar yn yr ysbyty.

Rydym wedi grwpio eu hadborth yn ôl themâu. [3]

**Gwybodaeth Cleifion**

Dywedodd 7 o bobl (oddeutu 41%) wrthym na roddwyd taflen gwybodaeth i gleifion iddynt wrth gael eu derbyn ar y ward

Derbyniodd 1 person wybodaeth ar lafar, a dywedodd 2 arall eu bod wedi derbyn gwybodaeth cyn cael eu derbyn i'r ward

Roedd 3 o bobl yn teimlo nad oedd y daflen yn egluro unrhyw beth yr oedd angen iddynt eu wybod.

[3] Ystyr 'diweddar' yw o fewn y 12 mis diwethaf.

**Cyfathrebu**

Dywedodd 2 o bobl (12%) wrthym eu bod wedi profi anawsterau cyfathrebu ar y ward

Dywedodd 3 o bobl eu bod yn methu â chadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu yn ystod eu harhosiad

Roeddent oll yn gallu cyfathrebu yn eu dewis o iaith

Dywedodd 71% bod staff yn eu cyflwyno eu hunain cyn darparu unrhyw ofal

Roedd 59% yn teimlo bod staff yn gwrando arnynt wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u triniaeth

Roedd 6 o bobl (35%) yn teimlo nad oedd y bobl a oedd yn bwysicaf oll iddynt yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u triniaeth i'r graddau y buasent wedi dymuno

Teimlai 12 o bobl (71%) eu bod yn derbyn digon o gefnogaeth emosiynol gan staff yr ysbyty yn ystod eu harhosiad.

Teimlai 13 o bobl (76%) bod y staff yn gynnil a thawel wrth drafod gofal/triniaeth gyda nhw

**Agwedd Staff**

Teimlai 13 o bobl (76%) bod y staff yn gyfeillgar ac yn barod i helpu

**Lefelau Staffio**

Teimlai 14 o bobl (82%) bod niferoedd y staff yn ddigonol i ddiwallu eu hanghenion ddydd a nos

**Ar y Ward**

Dywedodd 15 o bobl (88%) wrthym eu bod yn gallu cyrraedd eu botwm seinydd, ac roedd 2 yn methu

Dywedodd pawb wrthym fod eu botymau seinydd yn gweithio

Teimlai 2 o bobl (12%) nad oedd eu botymau seinydd yn cael eu hateb mewn modd amserol pan roeddent yn ei ddefnyddio

Dywedodd 14 o bobl (82%) wrthym eu bod yn cael eu hannog i godi a symud o gwmpas yn ddiogel yn ystod eu harhosiad; dywedodd 2 nad oeddent

**Cysur**

Dywedodd 15 o bobl (88%) wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn ystod eu harhosiad; dywedodd 2 nad oeddent

Dywedodd 15 o bobl (88%) wrthym fod ganddynt ddigon o flancedi; dywedodd 2 nad oedd ganddynt ddigon

Dywedodd 13 o bobl (82%) wrthym fod ganddynt ddigon o gobenydd; dywedodd 4 nad oedd ganddynt ddigon

**Cyfleusterau'r Ward**

Gwnaeth 16 o bobl sylw nad oedd unrhyw weithgareddau ar y ward

Dywedodd 11 o bobl wrthym fod ganddynt fynediad at ystafell ddydd neu ardal gymunedol yn ystod eu harhosiad fel cleifion mewnol

Dywedodd 13 o bobl wrthym nad oedd ganddynt fynediad at ardal breifat er mwyn gwneud galwadau ffôn a gweld ymwelwyr

Dywedodd nifer o bobl wrthym nad oedd ganddynt fynediad at deledu, radio neu bapur newydd

**Mesurau Coronafeirws**

Dywedodd pawb wrthym eu bod yn gallu deall staff a chyfathrebu gyda nhw drwy'r mygydau/tarianau wyneb.

**Hylendid Personol**

Teimlai 4 o bobl (24%) nad oeddent yn gallu cael cawod/ymolchi mor aml ag y buasent wedi dymuno

Dywedodd 5 o bobl (29%) wrthym nad oeddent yn gallu golchi eu gwallt mor aml ag y buasent wedi dymuno

Dywedodd 16 o bobl (29%) wrthym eu bod yn gallu cadw eu dannedd a'u ceg yn lân yn ôl y galw, gyda chymorth neu hebddo, a dywedodd 1 nad oeddent yn gallu

Roedd 94% yn gallu defnyddio'r toiled mor aml ag yr oedd ei angen gyda chymorth neu hebddo, a dywedodd 1 nad oeddent yn gallu

**Derbyn i'r Ward**

Dywedodd 7 o bobl nad oeddent wedi derbyn taflen wybodaeth wrth gael eu derbyn i'r ward. Fel gyda'n hadroddiadau blaenorol, dywedodd pobl eu bod wedi derbyn gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd.

"Ffoniodd y nyrs o Ward 2 fi i ofyn cwestiynau cyn derbyn i'r ward, ac eglurwyd yn glir iawn sut i ddod o hyd i Ward 2"

"Cefais nifer o lythyrau cyn cael fy nerbyn, ac fe wnaeth staff y ward gysylltu â fi y diwrnod cyn imi gael fy nerbyn"

"Cefais yr holl wybodaeth cyn cael fy nerbyn i'r ward"

**Amgylchedd y Ward**

Teimlai un person bod lefelau goleuo'r ward ar un noson yn ystod eu harhosiad wedi cael eu gadael ymlaen yn rhy hir.

"Teimlwn y gallai'r prif oleuadau nos yn yr ystafell fod wedi cael eu diffodd ynghynt." Un noson, roedd y goleuadau ymlaen tan 12.30"

Teimlai person arall bod gorchuddio ffenestri, er mai mesur dros dro ydoedd, yn effeithio ar eu profiad fel cleifion mewnol.

"Ffenestri wedi'u gorchuddio (dros dro)"

**Agwedd Staff**

Roedd 9 o bobl yn llawn clod am y staff a oedd yn darparu eu gofal, gyda nifer o sylwadau cadarnhaol ynghylch Ward 2, Ysbyty Singleton.

Ward 2, Ysbyty Singleton

"roedd holl staff y ward yn andros o help ac yn gyfeillgar"

"Fe wnaeth y staff ar ward 2 ragori ar fy nisgwyliadau yn ystod fy ngofal gyda nhw, ddydd a nos. Diolch yn fawr iawn ichi"

"Gofal gwych gan bawb"

**Ward 2, Ysbyty Singleton – parhad**

“Allaf i ddim diolch digon i’r staff ar ward 2. Roeddent yn andros o broffesiynol ac yn ofalgar dros ben. Mae wedi bod yn brofiad hyfryd er gwaethaf y boen oherwydd y llawdriniaeth”

“Da iawn Singleton, mi fyddaf yn rhoi clod i chi 10/10 am bopeth”

Gwnaeth 2 berson sylw am staff yn mynd allan o’u ffordd i wneud eu harhosiad yn fwy cyfforddus.

“Roedd y staff oll yn annwyl a gofalgar iawn yn ystod fy arhosiad. Sôn yn arbennig am [ ], fy nghynorthwyydd gofal iechyd. Roedd e’n gyfeillgar a hawddgar iawn ac fe wnaeth imi deimlo’n gyfforddus ac yn esmwyth. Roeddwn i’n nerfus iawn cyn dod i mewn, ac fe wnaeth ei bresenoldeb wahaniaeth gwirioneddol i fy mhrofiad yn ystod fy amser yno”

“Roedd gen i broblemau bwyta. Gan nad oedd unrhyw beth y gallwn ei fwyta, arferai un nyrs garedig fynd i’r siop i mi”

Dywedodd un person wrthym am eu profiad gwael yn gynnar yn eu gofal yn adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Treforys. Fodd bynnag, fe wnaethant ganmol eu gofal diweddarach yn dilyn y digwyddiad hwn.

“Roeddwn wedi ceisio gwneud amdanaf fy hun. Roedd y tîm uniongyrchol am 3yb yn wael. Fe lwyddais i gerdded allan yn droednoeth i’r Stadiwm Liberty. Roedd y gofal ar ôl hynny’n rhagorol”

Disgrifiodd claf arall a arhosodd yn Ysbyty Treforys ymddygiad negyddol un aelod o staff tuag atynt.

> "Roedd un nyrs staff yn nawddoglyd"

**Teimlo'n anniogel**

Dywedodd un person wrthym am amser pan roedd staff y nos wedi'u gadael yn teimlo'n anniogel.

> "Roedd staff y sifft nos yn anserchus, yn anofalgar ac fe wnaethant fy ngadael mewn perygl"

**Mesurau Coronafeirws**

Parhaodd pobl i rannu eu profiadau cadarnhaol a negyddol o'r mesurau Coronafeirws a oedd ar waith yn eang o hyd ar wardiau ledled Bae Abertawe.

Dywedodd 15 o bobl (88%) wrthym eu bod yn fodlon gyda'r mesurau diogelwch Covid-19 a oedd ar waith yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.

Dywedodd 2 o bobl (12%) fod ganddynt bryderon ynghylch dal coronafeirws yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty.

> "Roeddwn eisiau cael fy rhyddhau cynted â phosibl i osgoi cael covid"

Dywedodd un o’r rhain wrthym eu bod wedi dal Covid-19 tra’r oeddent yn yr ysbyty.

> “Daliais y Coronafeirws yn yr ysbyty. Fe es i mewn yno gyda pneumonia.”

**Glendid**

Roedd y rhan helaeth o bobl (94%) yn fodlon gyda glendid y ward/ystafell ysbyty’r oeddent yn aros ynddi.

> “Cadwyd y ward yn lân dlws bob amser”

**Cadw cysylltiad gyda ffrindiau a theulu**

Gyda lefelau ymweliadau’n parhau i beidio â bod wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig yn llawn, fe wnaethom ofyn i bobl a oedd unrhyw opsiynau amgen wedi’u cynnig iddynt, fel ymweliadau rhithwir, i gadw mewn cysylltiad â’u hanwyliaid. Atebodd 8 o bobl “naddo”.

Dywedodd 3 o bobl (18%) wrthym nad oeddent wedi gallu cadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau, ac roedd eraill wedi mynd â’u dyfeisiau digidol personol eu hunain i’r ysbyty gyda nhw.

> “Roedd y ffôn ac iPad ar gael inni, a galluogodd hynny imi gadw mewn cysylltiad gyda fy nheulu a ffrindiau.”

# Amseroedd bwyta – Crynodeb o'r canfyddiadau

Dywedodd mwy na hanner (10 o bobl, 58%) nad oeddent yn cael eu hannog i ddefnyddio cyfleusterau hylendid dwylo cyn prydau bwyd.

Gan mwyaf, roedd pobl yn fodlon ar y cyfan gydag ansawdd a thymheredd eu bwyd. Ymddengys fod pobl yn llai bodlon gyda chyflwyniad, maint dognau, a dewis y bwyd ar y fwydlen.

Dywedodd 14 o gleifion (76%) eu bod bob amser yn derbyn y pryd bwyd yr oeddent wedi'i archebu

Dywedodd 7 o bobl (41%) nad oedd ganddynt fynediad at fyrbrydau yn ystod y dydd a'r nos

Ni chafodd 82% ddewis ble i fwyta

Roedd 88% yn fodlon gyda'r lefel o gefnogaeth yr oeddent yn ei gael i fwyta ac yfed

Teimlai 71% fod eu jwg dŵr yn cael ei newid yn ddigon aml. Roedd 5 yn teimlo nad oedd.

Yn anffodus, dim ond 3 o bobl roddodd adborth ychwanegol ynghylch eu profiadau o amseroedd bwyta.

**Cael digon i'w yfed**

Dywedodd un person fod staff wedi monitro'r hylifau'r oeddent yn eu hyfed, i sicrhau eu bod wedi'u hydradu.

"Roedd y dŵr yn cael ei fonitro'n gyson ac fe'n hanogwyd i yfed mwy"

**Gofynion dietegol**

Fe glywsom na chafodd anghenion maeth dau o bobl eu bodloni yn ystod eu harhosiad.

"Allwn i ddim bwyta'r bwyd gan nad oedd ganddynt unrhyw beth y gallwn ei fwyta. Aeth nyrs i'r siop i mi."

"Roedd gen i ddiet cyfyngedig yn ystod fy arhosiad, felly ychydig iawn y gallwn ei fwyta"

**Diagnosis a dilyniant**

Nid oedd 1 person yn teimlo'n gwbl fodlon gyda'r broses o'u rhyddhau o'r ward.

"Chefais i ddim eglurhad llawn o'r hyn oedd yn bod arnaf i gan y doctor mewn gwirionedd, wnaeth e ddim egluro unrhyw beth i fy ngŵr hefyd. Ni soniwyd am unrhyw ofal dilynol ar ôl imi gael fy rhyddhau"

## Profiad cyffredinol tra yn yr ysbyty

Rhoddodd 15 o bobl (88%) sgôr 'da, da iawn, neu ragorol' i'w profiad cyffredinol, o'i gymharu â 2 o bobl (6%) a roddodd sgôr 'gwael' neu 'gwael iawn' i'w profiad. Gellir darllen sylwadau pellach gan CIC BA ar dudalen 32.



# Ymweliadau â wardiau – Crynodeb

Mae’r canlynol yn cyflwyno’r hyn a glywsom yn ystod ein hymweliadau â wardiau ysbytai ym mis Hydref 2022.

Prif nod yr ymweliadau â wardiau oedd deall, o safbwynt cleifion, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i gleifion.

Defnyddiwyd yr arolwg cleifion mewnol fel hwb i’n sgyrsiau gyda chleifion, ond cadwyd y trafodaethau’n agored, gan ganiatáu i gleifion godi pynciau eraill yn seiliedig ar eu profiadau a’u barn fel unigolion ynghylch y gwasanaeth ar y wardiau.

Y 2 ward cleifion mewnol oedolion a ymwelwyd â hwy oedd:

- Ward D, Ysbyty Castell-nedd Port Talbot
- Ward 2, Ysbyty Singleton

Trefnwyd ymweliadau’r CIC gyda’r Bwrdd Iechyd ymlaen llaw ac fe’u cynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:

- Ward D – 5 Hydref 2022
- Ward 2 – 12 Hydref 2022

Arweiniwyd ar yr ymweliadau gan aelod o staff CIC BA, gyda pharau o aelodau’n ymweld â phob ward.

Siaradodd y tîm o CIC BA gyda 12 o gleifion yn ystod eu hymweliadau â’r 2 ward cleifion mewnol.

**Agwedd staff ac ansawdd y gofal:**

Roedd y sylwadau cadarnhaol yn ategu'r rhai a gafwyd am staff Ward 2 yn Ysbyty Singleton yn gynharach yn yr adroddiad hwn:

"Roedd y staff, o'r ymgynghorwyr i staff gwasanaethau'r ysbyty, yn gyfeillgar a chroesawgar"

"Nid oedd yr un cais yn ormod i unrhyw aelod o staff"

Dywedodd un claf ar Ward 2 fod y staff wedi "camu i'r adwy" i helpu claf mewn ward 4 gwely, gan nad oedd gan y claf unrhyw aelodau teulu i ddod â nwyddau hanfodol i mewn iddynt. Roeddent wedi dod â dillad, sliperi a bwyd i'r claf. Dywedodd y claf wrthym, "mae'r staff yn wirioneddol mynd y filltir ychwanegol i holl gleifion Ward 2."

Ystyriwyd hefyd bod staff Ward D yn "gyfeillgar" a "chroesawgar".

**Sylwadau negyddol gan gleifion a pherthnasau am agweddau staff y wardiau ac ansawdd y gofal:**

Er bod y rhan fwyaf o'r sylwadau am y staff yn rhai cadarnhaol, fe wnaeth tîm CIC BA glywed am rhai profiadau negyddol ar y 2 ward, yn berthnasol i agweddau staff y ward.

Dywedodd un claf ar Ward D Castell-nedd Port Talbot wrthym ei bod, oherwydd eu cyflwr, yn fuddiol iddynt dorri gwynt. Fodd bynnag, canlyniad hyn oedd bod staff nyrsio yn "dweud y drefn" wrth y claf. Ar rai achlysuron, cofiai'r claf gael ei waeddi a'i regi arno. Roedd y claf yn awyddus i nodi nad fel hyn oedd holl staff y ward yn ei drin.

Dywedodd un arall ar Ward D nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwrando arnynt ynghylch eu gofal a'u triniaeth. Pan ofynnwyd

iddynt a oeddent wedi siarad ag aelod o staff am eu teimladau, dywedodd y claf nad oeddent eisiau “pechu yn erbyn y staff”.

**Amseroedd ymateb i’r botwm seinydd:**

Gwnaeth cleifion o’r ddwy ward sylwadau bod oedi’n aml wrth i nyrsys ar y sifft nos ateb y botymau seinydd. Fe glywsom sut y bu i un claf ar Ward D eistedd am gyfnod o amser mewn “pad wedi baeddu”, yn aros i gael ei newid, ac roedd hyn wedi digwydd fwy nag unwaith. Dywedodd y cleifion ar draws y ddwy ward eu bod yn credu nad oedd digon o staff yn y nos i ddiwallu eu hanghenion.

Dywedodd un claf ar Ward D eu bod yn teimlo’n “ynysig” yn eu bae unigol. Gwelodd y CIC fod eu botwm seinydd wedi’i osod ar y bwrdd y tu hwnt i’w cyrraedd. Pan ofynnodd tîm y CIC a oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio’r botwm seinydd, ymddangosai’r claf yn ansicr.

**Yr hyn a rannodd cleifion am gyfathrebu**

Sylwadau cadarnhaol:

Roedd pob un o’r pedwar claf y gwnaethom siarad gyda nhw ar Ward 2 yn fodlon gyda’r ffordd y gwnaeth staff egluro eu triniaethau iddynt. Soniwyd wrthym am y ffordd y gwnaeth tîm o feddygon ac anesthetydd siarad gyda phob un ohonynt am eu triniaeth a bod taflen wybodaeth wedi cael ei rhoi i’r rhan fwyaf ohonynt hefyd. Roedd cleifion yn ganmoliaethus am y meddygon gan eu bod wedi cynnig eu hamser i ateb unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt am eu triniaethau. Fe wnaethant ddweud wrthym nad oedd y sgyrsiau hyn yn rhai brysiog a bod yr wybodaeth a roddwyd iddynt yn ddigonol.

Sylwadau negyddol:

Dywedodd un claf ar Ward 2, Singleton, wrthym, "na chawsant eu gwneud yn ymwybodol" y byddai angen iddynt aros dros nos, felly nid oeddent wedi gallu ymbaratoi; nid oedd ganddynt "ddillad i newid iddynt neu byjamas" a bu'n rhaid iddynt "wisgo'r dillad o'r diwrnod cynt". Fe wnaethom glywed ganddynt eu bod yn cael eu rhyddhau ar ddiwrnod ein hymweliad ac yn aros i gael dychwelyd adref i gael cawod a brwsio eu dannedd.

**Oediad mewn rhyddhau o'r ysbyty:**

Roedd profiad negyddol un claf yn canolbwyntio ar oedi wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Fe wnaethant egluro bod oedi wrth i'r gwasanaethau cymdeithasol roi pecyn gofal ar waith yn golygu bod rhaid i bobl aros "wythnosau" i gael eu rhyddhau. Fe wnaethom glywed bod hyn yn effeithio'n arw ar eu hiechyd meddwl ac roeddent hefyd yn teimlo'n "euog" am ddefnyddio gwely ar y ward, ac fel yr oeddent yn ei ddweud "gellid rhoi'r gwely hwn i rywun arall".

**Amgylchedd y ward (yn cynnwys hylendid/glendid)**

**Arsylwadau gan dîm CIC BA wrth ymweld:**

Wrth ymgysylltu â chlaf ar Ward D, Castell-nedd Port Talbot, arsylwodd tîm CIC BA bod dannedd y claf yn fudr, a bod ganddynt ddwylo ac ewinedd budron hefyd. Roedd weips ar y bwrdd, fodd bynnag roedd y rhain y tu hwnt i gyrraedd y claf. Fe wnaethom glywed hefyd nad oedd staff yn cynnig cynorthwyo'r claf i olchi eu

dwylo. Teimlai'r CIC y byddai angen peth anogaeth ar y claf i gynnal arferion hylendid da.

Dywedodd claf arall ar Ward D wrthym "nad oeddent wedi golchi eu dwylo cyn pryd o fwyd, yn ystod y "7 mis ers cael eu derbyn yma". Roeddent yn disgrifio eu hunain fel bod yn "gaeth i'r gwely" ac fe wnaethant nodi nad oedd staff wedi dweud fod weips ar y cwpwrdd wrth ymyl y gwely iddynt eu defnyddio. Fe wnaethom glywed sut byddai staff weithiau'n golchi eu gwallt gyda "siampŵ sych col tar" gan nad oedd modd eu symud allan o'r gwely i gael cawod. Dywedodd y claf hwn eu bod yn gallu cynnal eu hylendid ceg eu hunain ond roeddent yn gwybod fod cymorth ar gael yn ôl y galw.

Arsylwodd tîm CIC BA bod weips dwylo wedi'u lleoli ger gwelyau pob un o'r 4 claf ar Ward D, fodd bynnag dywedodd cleifion wrthym nad oeddent yn eu defnyddio gan nad oeddent yn ymwybodol o'u pwrpas. Dywedodd y 4 nad oedd staff yn eu hannog i ddefnyddio weips ar eu dwylo cyn bwyta.

**Amgylchedd y Ward – Gweithgareddau**

Cadarnhaol:

Gwnaeth 1 clas ar Ward D sylw am y gefnogaeth iechyd meddwl a oedd ar gael iddynt yn yr ysbyty. Fe glywsom sut roedd ganddynt fynediad at "liwio, pêl-rwyd a sgiliau syrcas". Fe wnaethant ddweud eu bod yn chwaraewr allweddell "gradd 8" a bod allweddell wedi cael ei chyrchu i'r ward er mwyn iddynt allu ymarfer. Fe wnaethant ddweud fod hyn wedi helpu eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

Negyddol:

Dywedodd un claf ar Ward D wrthym nad oedd teledu yn eu hystafell. Gwnaeth hyn iddynt deimlo’n “ynysig” gan nad oedd ganddynt adloniant i “basio’r amser”. Fe wnaethant ddweud eu bod yn “colli allan ar wylio eu hoff raglenni teledu”. Fe glywsom sut roedd radio o’r ward wedi cael ei ddarparu i’r claf, ond roedd yn well ganddynt wylio’r teledu. Sylwodd tîm CIC BA fod y radio wedi’i gosod ar y silff ffenestr, yn rhy bell i’r claf allu cyrraedd ati’n hawdd.

Ar Ward 2 ar adeg ein hymweliad, roedd y gwelliannau i’r ward a oedd ar y gweill yn golygu bod yr ardal cyn llawdriniaeth yn cael ei defnyddio fel man gorlif ar gyfer cleifion. Fe glywsom fod hyn wedi effeithio ar fynediad at adloniant sylfaenol, fel teledu neu radio. Mynegodd y cleifion hyn ddyhead i gael y pethau hyn ar gael iddynt i’w helpu i basio’r amser tra’r oeddent ar y ward.

Dywedodd tri chlaf ar Ward 2 wrthym yr hoffent gael set o glustffonau, gan y byddai rhai cleifion yn “gwrando ar eu dyfeisiau gyda sain uchel”.

**Bwyd a diod** Rhannodd yr holl gleifion a siaradwyd gyda hwy yn ystod yr ymweliadau â wardiau eu profiadau o’r bwyd a diod sydd ar gael ar y wardiau. Disgrifiwyd y bwyd a diod sydd ar gael ar y wardiau mewn ffyrdd cadarnhaol:

“10 allan o 10”

Fodd bynnag, dywedodd 4 claf ar Ward 2 wrthym fod yn well ganddynt yr opsiwn brechdan ar gyfer prydau bwyd gan fod y prydau poeth naill ai:

"yn rhy drwm" neu fel arfer "wedi'u boddi mewn grefi"

Disgrifiodd un claf a oedd yn llysieuwr ar Ward 2 y dewisiadau bwyd fel "cyfyngedig". Fe wnaethant ddweud bod pysgod yn cael eu cynnig fel opsiwn llysieuol, ond eu safbwynt hwy yw mai diet "pysglysieuol" fyddai hynny.

Cafwyd adborth cymysg am y byrbrydau rhwng prydau bwyd ar draws y ddwy ward. Dywedodd llawer "nad oedd [byrbrydau] yn cael eu cynnig" rhwng amseroedd prydau bwyd, a byddai rhai wedi hoffi cael rhai, gan gyfeirio at yr amser rhwng prydau bwyd.

"Amser hir i aros rhwng amser te ac amser brecwast"

"Buaswn wedi hoffi cael bisged gyda fy niod 11 y bore… mae'n amser hir i aros rhwng prydau"

Dywedodd tri chlaf ar Ward 2 wrthym fod eu 'llythyr derbyn i'r ysbyty' wedi dweud wrth y claf am "ddod ag arian i mewn", i brynu papurau newydd ac eitemau o'r troli byrbrydau. Fodd bynnag, ar ôl cyrraedd y ward, fe'u hysbyswyd nad oedd y troli'n dod rownd y wardiau mwyach, oherwydd Covid-19.

**Glendid Wardiau a mesurau Covid-19**

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad gyda hwy ar Ward 2 na ofynnwyd iddynt gymryd prawf Llif Unffordd (LFT) cyn dod i'r

ward. Dywedodd 2 glaf wrthym eu bod yn teimlo’n “nerfus” am fod yn yr ysbyty, gydag achosion Covid yn y gymuned ar gynnydd.

Mynegodd tri chlaf ar Ward 2 bryderon am eraill ar y ward nad oeddent wedi gwneud prawf Llif Unffordd. Roeddent am gael gwybod sut roedd staff yn siŵr bod y ward yn un “heb Covid” a sut mae’r ysbyty’n diogelu’r cleifion hynny sydd â system imiwnedd gwannach neu a ystyrir yn fregus?

Dywedodd claf arall ar Ward 2 wrthym eu bod yn teimlo’n “gymharol ddiogel” yn yr ysbyty, gan ddweud wrthym eu bod yn rhan o raglen ymchwil Covid-19 a’u bod yn cael “profion yn rheolaidd” fel rhan o’r rhaglen. Teimlai un claf y gwnaethom siarad gyda hwy mai mater o arddel “dull synnwyr cyffredin” tuag at lendid oedd hi; roeddent yn hapus o weld y staff yn gwisgo mygydau ac yn canmol y staff glanhau am lendid trylwyr Ward 2.

Dywedodd un claf ar Ward 2 wrthym am amser pan roeddent yn dymuno gadael ward yr ysbyty, i fynd allan am sigarét; roeddent hefyd wedi cynnig galw heibio’r siop ar ran cleifion eraill yn eu bae. Fodd bynnag, roedd staff y ward wedi’u hysbysu nad oedd cleifion yn cael gadael y ward oherwydd eu bod yn ceisio lleihau’r risg o ledaenu Covid-19 ar y ward.

Effeithiwyd ar brofiadau cleifion ar Ward 2 hefyd pan fu i staff ddweud wrth un claf nad oedd ymweliadau’n cael eu caniatáu ar y ward. Dywedwyd wrthynt hefyd nad oeddent yn cael rhywun i ddisgwyl gyda nhw cyn mynd i’r theatr.

Dywedodd y 4 claf ar Ward D nad oeddent wedi gweld unrhyw ymwelwyr ers cael eu derbyn, ac mewn rhai achosion roedd hyn yn fisoedd lawer.

**Gwisgo mwgwd:**

Dywedodd bob un o'r 4 claf ar Ward D eu bod yn teimlo'n ddiogel gyda'r mesurau Covid-19 a oedd ar waith yn yr ysbyty, fodd bynnag dywedodd pob un eu bod yn ei chael yn anodd deall staff a oedd yn cyfathrebu â hwy wrth wisgo mwgwd.

Eglurodd un o'r cleifion hyn bod acenion mewn cyfuniad a gwisgo mwgwd yn "her fawr".

**Cyflymder Derbyn i'r Ward**

Dywedodd un claf ar Ward 2 wrthym eu bod wedi "rhyfeddu" am gyflymder eu derbyn i'r ysbyty am lawdriniaeth, yn dilyn canlyniadau "profi gartref".

Fe wnaeth claf arall ar Ward 2, Singleton, gymharu eu profiad â derbyniad blaenorol i Ysbyty mewn Bwrdd Iechyd cyfagos, gan ganmol BIP Bae Abertawe am fod eu staff yn "llawer mwy cyfeillgar a pharod i helpu", a bod yr ysbyty'n un â "mwy o le ynddi, ac yn llawer glanach."

# Dysgu o'r hyn a glywsom

Mae profiad pobl yn gyffredinol wedi gwella'n sylweddol o'i gymharu ag adroddiadau cleifion mewnol y CIC a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 a mis Gorffennaf 2022. [4] Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol fod y niferoedd a roddodd adborth yn y cyfnod hwn wedi gostwng a bod cyfran sylweddol o'r adborth cadarnhaol yn cyfeirio at Ward 2 yn Ysbyty Singleton.

Dymuna CIC BA gydnabod yr adborth cadarnhaol a dderbyniwyd yn yr adroddiad hwn, yn enwedig ynghylch gofal ac agweddau staff ar Ward 2, Ysbyty Singleton.

Gall bod yn yr ysbyty fod yn brofiad unig i gleifion. Gan na all cleifion weld eu hanwyliaid neu fynd o gwmpas eu bywydau bob dydd fel y maent yn arfer gwneud yn ystod eu harhosiad, mae'n hawdd iddynt deimlo wedi'u hynysu o'r byd go iawn. Dywedodd rhai pobl fod ganddynt brin neu ddim mynediad at adloniant neu wybodaeth y tu allan i'r ysbyty. Fe wnaeth hyn eu gadael yn teimlo'n ddatgysylltiedig ac yn "ynysig". Nid oedd gan gleifion fynediad at adloniant syml fel teledu a radio, oni bai eu bod yn dod ag un eu hunain i mewn gyda nhw, ac fe wnaethant fynegi dyhead i'r rhain fod ar gael iddynt i'w helpu i dreulio'r amser tra'r oeddent ar y ward.

Mae adborth ar amseroedd bwyta'n parhau i fod yn gymysg. O ran archebu bwyd, prin oedd y cleifion a ddywedodd eu bod wedi gweld

[4] Ewch draw i'n gwefan am gopïau o adroddiadau blaenorol, https://swanseabaychc.nhs.wales/what-we-have-to-say/report-library/

bwydlen, gan ddewis bwyd o’r troli unwaith yr oedd hi wedi cyrraedd y ward.

Gwnaeth un claf sylw mai dim ond un dewis llysieuol oedd ar y fwydlen. Er ein bod yn gwerthfawrogi fod y bwyd hwn ar gael, credwn y dylid bod mwy o amrywiaeth i lysieuwyr.

Mae argaeledd byrbrydau rhwng prydau yn parhau i amrywio ar draws wardiau a rhwng cleifion. Prin iawn oedd y cleifion a oedd yn ymwybodol eu bod yn cael gofyn am fyrbrydau rhwng prydau bwyd. Credwn fod hyn yn bwysig iawn, yn arbennig os oes yw chwant cleifion am fwyd yn amrywio, neu os ydynt wedi colli pryd bwyd.

Mae’n amlwg o ymweliadau’r CIC â’r wardiau bod y weips dwylo a ddosbarthwyd i’r cleifion yn aml ddim yn cael eu defnyddio, ac roedd yn amlwg bod cleifion yn colli’r foment bwysicaf o hylendid dwylo cleifion, sef cyn bwyta eu pryd bwyd.

Roedd y CIC yn bryderus wrth glywed am oedi sylweddol wrth adael yr ysbyty, i’r rhai a oedd wedi’u pennu’n rai a oedd yn ffit i adael yn feddygol. Mae’r oediadau hyn yn ddrwg i lif cleifion drwy’r system ac i ganlyniadau ymysg cleifion.

# Argymhellion

Rydym yn ailddatgan yr argymhellion yn ein hadroddiadau cleifion mewnol chwarterol a gyhoeddwyd eleni. Mae copïau o’r adroddiadau hyn ar gael ar ein gwefan: https://baeabertawecic.gig.cymru/
neu ar gais Gweler ein manylion cysylltu ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Argymhellion sy'n codi o'r adborth yn yr adroddiad hwn:

Ynghylch amseroedd bwyta:

1. Adolygu'r broses archebu bwyd i sicrhau bod bwydlenni hollbwysig ar gael i gleifion, yn cynnwys mewn ieithoedd gwahanol a Braille, ar y ward i ddarparu'r dewis o brydau bwyd sydd ar gael i'r holl gleifion.
2. Sicrhau bod digon o opsiynau ar gyfer amrywiaeth dda o brydau sy'n gweddu i gleifion gyda gwahanol ofynion diwylliannol neu anghenion diet.
3. Mae byrbrydau rhwng prydau'n creu cyfleoedd ychwanegol y tu hwnt i amseroedd bwyta i gynyddu'r maeth a gaiff cleifion. Sicrhau bod holl gleifion yn ymwybodol eu bod yn cael archebu bwyd a diodydd rhwng prydau.
4. Adolygu'r weithdrefn golchi dwylo i sicrhau bod cleifion yn cael eu hatgoffa a'u cefnogi i wneud hynny cyn prydau bwyd ac ar ôl prydau bwyd a sicrhau bod weips gwlyb ar gael o fewn cyrraedd cleifion sydd â llai o symudedd.
5. I gyflawni'r argymhelliad uchod, efallai y bydd BIP BA yn dymuno:
    a. Edrych ar opsiynau amgen a fyddai'n ei gwneud yn haws i gleifion gynnal hylendid dwylo cyn iddynt fwyta, neu
    b. Edrych am ffyrdd o annog cleifion i ddefnyddio'r weips dwylo a ddarperir
    c. A fyddai'r staff gwasanaeth bwyd a maeth sy'n danfon prydau'r cleifion yn fodlon chwarae rhan mewn gwella hylendid dwylo cleifion drwy fynd ati'n weithredol i rannu'r weips dwylo neu annog eu defnyddio?

6. Mae ein hadroddiad yn amlygu achlysuron pan fo rhai cleifion wedi'u gadael heb adloniant hygyrch, gan eu gadael yn teimlo'n "ynysig".
    a. Sicrhau bod holl adloniant sylfaenol, fel setiau teledu a radio, ar gael ac yn hygyrch ac o fewn cyrraedd i bob claf, yn cynnwys y rhai mewn bae preifat.
7. Fe glywsom am achlysuron pan nad oedd pecynnau gofal ar gael unwaith yr oedd cleifion yn "barod yn glinigol" i gael eu rhyddhau, a bod hyn yn cael effaith ddifrifol ar iechyd meddwl a llesiant cleifion. Dymuna'r CIC i'r BI:
    a. Rannu gyda'r CIC sut maent yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill, yn cynnwys cartrefi gofal a hosbis, i ryddhau'r uchafswm o welyau
    b. Adrodd i'r CIC ar ba fesurau sy'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa
8. Roedd ar rai cleifion yn ein hadroddiad ofn dal feirws Covid-19 yn yr ysbyty ac roeddent yn ansicr sut roedd y Bwrdd Iechyd yn lliniaru'r risgiau hyn. Ystyria'r CIC fod y gallu gan staff y wardiau i leddfu pryderon cleifion drwy egluro'r protocolau a mesurau diogelwch newydd sydd ar waith ar draws yr ysbytai, i gysuro cleifion ynghylch ei diogelwch yn ystod cyfnod Covid-19.
9. Dywedodd cleifion ar Ward D nad oeddent wedi gweld ffrindiau a theulu am fisoedd lawer. Pan na chaniateir ymweliadau rheolaidd, er enghraifft, oherwydd brigiad o haint, rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod opsiynau amgen i ymweld yn cael eu cefnogi'n iawn, gan alluogi pobl i gadw mewn cysylltiad ag anwyliaid.

# Beth nesaf?

Bydd Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe yn parhau i fonitro ac adrodd yn ôl ar brofiadau cleifion mewnol mewn ysbytai yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Byddwn yn parhau i gynnal rhaglen o ymweliadau wyneb yn wyneb, a siarad yn uniongyrchol gyda chleifion am eu gofal a'u triniaeth. Bydd CIC BA yn parhau i rannu'r adroddiadau hyn gyda'r Bwrdd Iechyd.

# Diolch ichi

Diolch i bawb sydd wedi neilltuo amser i rannu eu profiadau a'u sylwadau am eu harhosiad diweddar mewn ysbyty ac i staff Bwrdd Iechyd Bae Abertawe am eu cefnogaeth i'n rhaglen ymweliadau.

# Adborth

Hoffai CIC Bae Abertawe gael eich sylwadau am y cyhoeddiad hwn, a chael unrhyw awgrymiadau ynghylch sut y gallem fod wedi'i wella er mwyn i ni allu eu defnyddio i wella ein gwaith yn y dyfodol.



# Manylion cysylltu

| | |
|---|---|
| | Cyngor Iechyd Cymuned Bae Abertawe<br>Llawr Cyntaf<br>Canolfan Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cimla,<br>Castell-nedd<br>SA11 3SU |
| | 01639 683490 |
| | swanseabay@waleschc.org.uk |
| | https://baeabertawecic.gig.cymru |
| | @swanseabayCHC |
| | @swanseabayCHC |
| | @swanseabayCHC |

Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, fe wnawn eich ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi mewn ymateb i'ch gohebiaeth. Croesawn alwadau ffôn yn Gymraeg.

**Cyngor Iechyd Cymuned**

**Bae Abertawe**